Adroddiad ar

Gylch Meithrin Dinas Llanwnda

Canolfan Bro Llanwnda
Llanwnda
Caernarfon
LL54 5UG

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2026

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Dinas Llanwnda

| | |
|---|---|
| Enw’r lleoliad | Cylch Meithrin Dinas Llanwnda |
| Categori’r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw’n berthnasol) | Elliw Lloyd Owen |
| Person â gofal | Awen Jennings |
| Nifer y lleoedd | 12 |
| Ystod oedran y plant | 2 – 4 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 4 |
| Nifer y plant sy’n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 1 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun – Dydd Gwener 9.00 tan 12.55 |
| Gwasanaeth Dechrau’n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw’r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Arolygiad cyntaf ers ailgofrestru yn Mawrth 2023 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mawrth 2018 |
| Dyddiadau’r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 20/01/2026 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Datblygu ymhellach y defnydd o gwestiynnu effeithiol i herio dysgu'r plant a'u medrau datrys problemau.

A2 Sicrhau bod dogfennau'r gwasanaeth yn adlewyrchu'r gwasanaeth yn llawn.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Rhagorol

Mae bron bob plentyn yn hapus ac yn teimlo’n hollol gartrefol o fewn eu hamgylchedd chwarae a dysgu. Maent yn symud yn hyderus o un weithgaredd i'r nesaf a rhwng yr ardal dan do a'r ardal awyr agored. Mae’r plant yn rhannu eu teimladau yn effeithiol iawn yn y lleoliad ac maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau pwrpasol. Er enghraifft, maent yn dewis ble i chwarae ac yn rhannu eu syniadau a’u dymuniadau’n glir gydag ymarferwyr. Mae ymarferwyr yn gwrando ar ddiddordebau a barn y plant a chânt eu cynnwys yn y gweithgareddau a gynllunnir. Mae’r plant yn cyfrannu eu syniadau am beth i ymchwilio iddo fel rhan o’u dysgu ac yn siarad yn hyderus iawn. Mae'r plant yn dysgu i ddeall eu teimladau ac i ddangos boddhad. Er enghraifft, daw plentyn i mewn i’r lleoliad a dewis ‘hapus’ fel ei deimlad ar gyfer y bore, ond ar ôl cyfnod aeth yn ôl i newid ei deimlad i ‘gyffrous’ gan ei fod yn gyffrous i chwarae gyda’i ffrindiau.

Mae bron bob plentyn yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol iawn â'r ymarferwyr, sy'n cael effaith fuddiol iawn ar eu llesiant a'u cymhelliant. Mae bron bob un o'r plant yn meithrin medrau cymdeithasol da. Maent yn cyfarch ei gilydd yn gyfeillgar ac yn mynd yn syth i gyd-chwarae’n hapus yn yr ardaloedd chwarae. Maent yn hapus i ryngweithio ag ymwelwyr i'r lleoliad. Mae lleiafrif o blant yn dechrau datblygu medrau empathi, er enghraifft wrth sylwi bod eu ffrind eisiau tro gydag adnodd, ac yn cynnig ei rannu’n wirfoddol gyda nhw.

Mae bron bob plentyn yn ddysgwyr chwilfrydig sy'n ymgymryd â'u chwarae a'u dysgu am gyfnodau estynedig. Maent yn mwynhau'r ystod eang o gyfleoedd a phrofiadau bywyd go iawn sydd ar gael iddynt, gan archwilio'r adnoddau'n hyderus a defnyddio eu dychymyg yn aeddfed. Er enghraifft, maent yn arddangos dychymyg a chreadigrwydd wrth fwynhau defnyddio’r bocsys i lithro eu hunain ar draws y neuadd.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn egnïol ac yn mwynhau eu profiadau chwarae a dysgu yn llawn brwdfrydedd. Maent yn dangos diddordeb a chyffro wrth chwarae gyda gwahanol offer ac adnoddau sy’n eu diddori. Er enghraifft, maent yn hapus i helpu ei gilydd neu ddefnyddio’r adnoddau yn yr ardal allanol i greu concrit a llenwi twll yn y llawr. Clywir plant yn annog ei gilydd i gymysgu a lledaenu’r tywod a nôl mwy gan nad oedd digon i orffen eu gwaith. Mae rhan fwyaf o blant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu medrau annibyniaeth. Mae llawer o blant yn rhoi eu cotiau a'u bagiau ar eu pegiau personol. Yn ystod amser byrbryd, maent yn arllwys llefrith eu hunain i gwpanau neu’n golchi a sychu llestri yn annibynnol.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Nid oes adroddiad ar ddysgu’r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae’r ymarferwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant ac yn cynnal gweithdrefnau effeithiol i sicrhau bod plant yn iach a diogel. Mae pob un ohonynt wedi mynychu hyfforddiant amddiffyn plant ac yn hyderus ynglŷn â’r gweithdrefnau cywir i’w dilyn pe byddai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae bob un o’r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig, sy’n eu galluogi i ddarparu triniaeth briodol, pe byddai angen. Maent yn cofnodi unrhyw ddamweiniau’n fanwl, gan sicrhau bod rhieni’n llofnodi’r cofnodion yn amserol. Mae ymarferion tân yn cael eu cwblhau'n rheolaidd a'u cofnodi'n drylwyr. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae’r rhan fwyaf o ymarferwyr yn gwneud defnydd da o weithdrefnau cyfredol er mwyn atal lledaenu heintiau. Er enghraifft, maent yn annog plant i olchi eu dwylo cyn bwyta. Maent yn sicrhau bod byrddau’n cael eu glanhau’n drwyadl gyda hylif diheintio cyn i blant eistedd a bwyta. Maent yn dilyn gweithdrefnau hylendid addas ar gyfer newid cewyn ac ar adegau pan mae ymarferwyr yn paratoi bwyd i blant.

Mae bron bob ymarferwyr wedi ffurfio perthynas gadarn â’r plant. Maent yn garedig, yn ofalgar ac yn ymateb yn feddylgar i anghenion a diddordebau’r plant. Mae ymarferwyr yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn eu gweithredu fel modelau rôl da. Maent yn ffurfio perthynas waith agos â’r plant ac maent yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol. O ganlyniad, mae’r plant yn dilyn cyfarwyddiadau’r ymarferwyr yn gyson. Maent yn modelu rhyngweithiadau naturiol a chadarnhaol yn gyson, ac yn addysgu plant i fod yn ystyriol, i rannu, a chymryd tro. Er enghraifft, pan mae plant yn gofyn am gymorth, mae ymarferwyr wrth law i gamu i mewn a chynnig cefnogaeth, pan fo angen. Mae gan ymarferwyr berthynas gynnes a naturiol â'r plant ac maent bob amser yn eu trin yn fedrus a gyda pharch.

Mae rhan fwyaf o ymarferwyr yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad plant yn llwyddiannus. Maent yn darparu ardaloedd dysgu pwrpasol i blant, gyda llawer o weithgareddau’n bodloni eu diddordebau. Mae ymarferwyr yn ymgysylltu’n dda â’r plant ac yn eu cefnogi’n effeithiol wrth iddynt chwarae. Mae ymarferwyr yn gweithredu’r trefniadau addas sydd ganddynt, er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gweithdrefnau cadarn ar waith i sicrhau bod ymarferwyr yn medru gweithio’n llwyddiannus ag asiantaethau allanol os oes

angen trefnu unrhyw gymorth ychwanegol. Rhennir gwybodaeth gyda rhieni yn gyson trwy ap cymdeithasol. Mae hyn yn sicrhau bod rhieni'n derbyn gwybodaeth gyfredol a buddiol am ddatblygiad eu plant.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae ymarferwyr yn cynnal trosolwg defnyddiol o bob plentyn trwy gasglu gwybodaeth werthfawr amdanynt, er enghraifft wrth ystyried eu cymhelliant dysgu a'u diddordebau. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i feithrin lles plant a darparu gweithgareddau sy'n bodloni eu hanghenion dysgu yn llwyddiannus. Yn yr arfer orau, mae lleiafrif yr ymarferwyr yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol wrth sicrhau cyfleoedd pwrpasol i blant ddewis eu trywyddau dysgu eu hunain. Er hyn, nid ydynt bob tro'n manteisio ar gyfleoedd buddiol i symud y dysgu ymlaen er mwyn datblygu medrau datrys problemau'r plant yn effeithiol. Mae ganddynt ddealltwriaeth addas o ddatblygiad plant a'r ffordd mae plant yn dysgu drwy chwarae ac arbrofi. Maent yn sicrhau cyfleoedd i blant gael mynediad di-dor rhwng yr ardal allanol a'r ardal tu fewn. Mae hyn yn annog annibyniaeth y plant ac yn datblygu eu chwilfrydedd yn effeithiol.

Mae ymarferwyr yn fodelau iaith medrus. Maent yn annog plant i sgwrsio â'i gilydd ac yn hyrwyddo ffyrdd effeithiol iddynt fynegi eu hanghenion. Ar brydiau, mae ymarferwyr yn holi plant yn bwrpasol. Er hyn, nid ydynt bob amser yn rhyngweithio'n ddigon effeithiol er mwyn datblygu gallu'r plant i feddwl yn annibynnol.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i'r plant gymryd risgiau addas, er enghraifft trwy ddringo'r ffrâm ddringo pren er mwyn arbrofi a neidio'n ofalus o uchder. Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo boddhad y plant mewn darllen trwy arddangos amrywiaeth o lyfrau ar draws y gwahanol ardaloedd sy'n hygyrch i'r plant fynd atynt i'w mwynhau. Maent yn darparu ystod o gyfleoedd sy'n annog plant i wneud marciau a datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar. Mae ymarferwyr yn sicrhau ystod fuddiol o adnoddau a chyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd plant. Er enghraifft, maent yn gosod bocsys cardfwrdd o wahanol faint yn yr ardal adeiladu er mwyn annog trafodaethau mathemategol wrth iddynt gyd-chwarae. Darperir amrywiaeth eang o adnoddau sy'n datblygu medrau digidol y plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn recordio caneuon ar lechi siarad sy'n galluogi'r plant i ddilyn lluniau'r caneuon a chanu caneuon cyfarwydd yn annibynnol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau corfforol yn gadarn. Mae'r ymarferwyr yn cynnig amrediad o adnoddau pwrpasol sy'n caniatáu i'r plant ddatblygu medrau cydbwyso corfforol cryf. Mae ymarferwyr yn cynllunio amrediad buddiol o gyfleoedd i hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol. Ceir cyfleoedd effeithiol i blant ddysgu am ddigwyddiadau mewn diwylliannau eraill. Maent yn hyrwyddo

ymwybyddiaeth y plant o'u Cymreictod a'u cynefin yn fedrus, er enghraifft wrth ddathlu Dydd Santes Dwynwen.

## Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd addas, diogel a glân ar gyfer y plant. Maent yn sicrhau bod ymarferwyr yn gweithredu rhagofalon diogelwch yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn gwirio'r ardal allanol i leihau unrhyw beryglon cyn i blant ei defnyddio ac mae arwyddion clir ar gael i gefnogi'r gweithdrefnau ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng. Mae ymarferwyr yn cwblhau cofnodion dyddiol o amseroedd cyrraedd a gadael plant ac oedolion, gan gynnwys ymwelwyr. Mae arweinwyr yn cynnal driliau tân rheolaidd ac maent yn cael eu cofnodi'n fanwl. Mae ganddynt asesiadau boddhaol o risgiau cyffredinol a risgiau tân sy'n destun adolygiadau ac y gweithredir arnynt.

Mae arweinwyr yn cynnig amgylchedd cynhwysol lle mae bob plentyn yn cael mynediad cyfartal i'r holl adnoddau a gweithgareddau amrywiol. Mae'r amgylchedd yn caniatáu i blant ddefnyddio'r toiledau a defnyddio'r basnau golchi dwylo yn annibynnol. Mae arweinwyr yn dilyn trefniadau cyson ynglŷn â diogelwch yr amgylchedd ac mae trefniadau glanhau rheolaidd ar waith, sy'n adlewyrchu arferion hylendid da.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod y lleoliad yn ddiogel, yn groesawgar, yn hygyrch ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n effeithiol. Mae'r ardaloedd chwarae tu fewn a thu allan yn eang ac yn ennyn diddordebau'r plant i ddarganfod ac archwilio wrth chwarae'n rhydd. Mae'r arweinwyr yn darparu ardaloedd sy'n cynnig cyfleoedd i blant ddatblygu medrau corfforol, cymdeithasol, ieithyddol, mathemategol a moesol sy'n cynnwys adnoddau naturiol a deunyddiau wedi'u hailgylchu. Mae arddangosfeydd lliwgar, sy'n llawn gwaith crefft a ffotograffau'r plant, yn rhoi ymdeimlad cryf o berthyn iddynt.

Mae arweinwyr yn sicrhau y gall bob plentyn gael mynediad at amrywiaeth eang o ddodrefn, teganau ac offer sy'n briodol o ran eu hoedran ac o ansawdd da. Er enghraifft, mae basgedi a silffoedd agored i'r plant ymchwilio a llawer o ddodrefn naturiol ac o'r cartref ar gael. Mae arweinwyr yn darparu rhywfaint o adnoddau i annog chwilfrydedd plant am y gymdeithas ehangach ac yn annog datblygiad personol a chymdeithasol y plant yn effeithiol drwy gynnig adnoddau i hybu gwerthoedd amlddiwylliannol ymysg y plant. Tu fewn, mae plant yn cael cyfleoedd helaeth i ddatblygu eu medrau, trwy gyffwrdd, archwilio a darganfod. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod yr adnoddau o fewn cyrraedd plant er mwyn iddynt allu eu dewis a'u dethol eu hunain.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan yr arweinwyr ddisgwyliadau uchel o’r plant a’r ymarferwyr ac mae’n cynnal ymdeimlad o dîm ymysg yr holl staff. Mae lles y plant wrth wraidd popeth, ac o ganlyniad, mae’r plant yn hapus ac yn gwneud cynnydd da.

Mae arweinwyr wedi sefydlu systemau clir ar gyfer rhannu gwybodaeth am ddatblygiad plant, gan gynnwys diweddariadau rheolaidd a chyfleoedd i rieni gyfrannu at arsylwadau. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y plant, gan fod anghenion unigol yn cael eu hadnabod yn gynnar ac mae rhannu gwybodaeth gyson a buddiol rhwng y cartref a’r lleoliad.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso’r lleoliad yn canolbwyntio’n effeithiol ar amrediad eang o dystiolaeth a mewnbwn oddi wrth yr holl randdeiliaid. Mae arweinwyr yn adnabod cryfderau a meysydd i’w gwella yn briodol ac yn cydweithio â’r staff er mwyn gwneud gwelliannau i’r ddarpariaeth. Mae arweinwyr yn rhannu’r camau gweithredu synhwyrol gydag ymarferwyr, gan ystyried y dulliau mwyaf effeithiol o gyrraedd eu blaenoriaethau.

Mae gan arweinwyr ddatganiad o ddiben pwrpasol ac amrywiaeth o bolisïau da ar gyfer y gwasanaeth, sy’n cael eu gweithredu’n effeithiol. Fodd bynnag nid yw’r dogfennau’n adlewyrchu’r gwasanaeth yn llawn.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod prosesau recriwtio cadarn yn cael eu gweithredu ac yn sicrhau bod ganddynt wiriadau perthnasol cyn i ymarferwyr ddechrau gweithio gyda’r plant. Mae ganddynt drefniadau priodol ar gyfer cynnal cyfarfodydd goruchwylio gydag ymarferwyr.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd doeth o’r gyllideb a grantiau i gefnogi blaenoriaethau gwella a diwallu anghenion plant. Er enghraifft, trwy gyllido gwelliannau yn yr ardal allanol, darparwyd adnoddau deniadol o ansawdd da sy'n cefnogi dysgu’r plant ac yn cyfoethogi eu profiadau’n llwyddiannus.

Mae gan arweinwyr ac ymarferwyr berthynas gryf â’r rhieni. Maent hefyd yn gwneud defnydd da o dudalen gymdeithasol ddigidol i hysbysu rhieni am weithgareddau a digwyddiadau yn ddyddiol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod y gymuned yn rhan allweddol o chwarae a dysgu plant yn y lleoliad. Er enghraifft, maent yn trefnu ymweliadau rheolaidd i’r gymuned leol ac yn gwahodd ymwelwyr o’r gymuned i mewn i’r lleoliad. O ganlyniad, mae partneriaeth rhwng y Cylch a theuluoedd wedi cryfhau ac yn cefnogi dysgu parhaus y plant mewn amgylchedd cefnogol a chynhwysol. Mae’r arweinwyr yn gweithio’n agos gyda swyddogion cefnogi’r awdurdod lleol i gynnal a datblygu ansawdd y ddarpariaeth.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/03/2026